


Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth sydyn Mrs Mair Williams (Eglwys Unedig Llansannan) ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Tudor ac Eleri, ac â Nia a Mona yn eu profedigaeth a gweddiwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am fam a nain arbennig.
- Parhawn i gofio am Gwenfyl Williams (Eglwys Unedig Llansannan) yn Ysbyty Rhuthun, ac Elsie May Edwards (Eglwys Unedig Llansannan) a Morfudd Williams (Henllan) sydd yn yr Inffirmari. Diolchwn i Dduw am y tair ohonynt, a hyderwn y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.

Help plis!

Tybed oes rhai ohonoch allai helpu'n achlysurol hefo'r **gwaith plant a/neu ieuentid**? Os yw hynny'n bosibl, a wnewch chi gysylltu hefo Gwion Dafydd (01745 582644/07849 591163) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda? Mi fyddai unrhyw help yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Detholiadau



Os hoffech gael copi o
Raglen Cymanfaoedd Canu 2016-2017
(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),
rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul
ERBYN DYDD SUL, MEDI 25^{ain}
os gwelwch yn dda. Pris: £1.40

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r
wythnos ganlynol, os gwelwch yn dda?)

I ddod

- ✧ **DATHLIAD BEIBL BYW** i bobl o bob oed, i blant ac ieuentid dydd Sadwrn, Medi 24ain yng Ngholeg y Bala a Chapel Tegid. Mae croeso i bawb yn rhad ac am ddim. Bydd diodydd cynnes ond dewch â phe cyn bwyd. I archebu lle neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Choleg y Bala ar (01678) 520565 neu ebostiwch colegybala@ebpcw.org.uk
- ✧ **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** nos Fercher, Medi 28ain yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Helen Wyn Jones.
- ✧ **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** nos Iau, Medi 29ain yng Nghapel Llanefydd. Croeso cynnes i rai newydd i ymuno â ni.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Medi 2016

DILYNWCH NI:
@eglwysibroaled



eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'r oedfaon arbennig fydd yn cael eu cynnal ym Mro Aled heddiw! Edrychwn ymlaen at gael canmol enw'r Arglwydd gyda'n gilydd a rhyfeddu at y Duw sy'n maddau'n helaeth i bawb sy'n dod i adnabod Iesu Grist fel eu Hachubwr. Wrth i gymaint ohonom gychwyn ar gyfnod newydd cyffrous mewn swydd, ysgol, coleg neu ymddeoliad(!), mae'n gysur mawr sylweddoli fod yr Arglwydd yn gadarn a digyfnewid trwy'r cyfan a bod Iesu Grist yr un ddoe, heddiw ac am byth. (Hebraid 13:8)

Yn y Testament Newydd mae Cristnogion yn cael eu hannog: 'Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddiwch, a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen, a byddwch yn ddiolchgar bob amser.' (Philipiad 4:6) Ac mae'r un neges yn amserol i ninnau hefyd – rydym am ddiolch i'r Arglwydd heddiw am y ffordd y mae wedi gweithio yn ein plith yn barod ac am gyflwyno'n gilydd i'w ofal, yn ymwybodol o'n hangen mawr wrth gychwyn ar y cam nesaf. Yn arbennig felly, rydym am weddio dros yr ieuentid sy'n cael eu derbyn yn gyflawn aelodau heddiw. Ein dyhead yw ar iddynt oll brofi cariad Duw yn Iesu Grist drostynt eu hunain a thyfu i bwysu arno a'i drysori uwchlaw popeth arall.

Mae'n diolch yn fawr i Dduw am Sarah Dafydd a'i chyfraniad fel Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i rai joli-hoitio yn Llundain! Mae Sarah wedi bod yn chwa o awyr iach wrth iddi ddod â'r Newyddion Da yn fyw i bob oed yn ei dull bywiog ei hun! Dwi'n siŵr ein bod am ddiolch yn fawr iddi, ac y byddwn yn parhau i weddio amdani wrth iddi gychwyn ar gwrs meistr mewn gwaith cymdeithasol. Byddwn hefyd wrth gwrs yn cyflwyno Gwion i'r Arglwydd yn gyson wrth iddo yntau barhau â dyletswyddau'r Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol yn llawn amser.

Profiad chwerw-felys fydd diolch a ffarwelio (mewn un ffordd) ag Aneurin heno pan gaiff ei ryddhau o'i ddyletswyddau fel gweinidog. Mae pawb ohonom yn ddyledus iddo am ei ofal tyner drosom fel aelodau, ei arweiniad doeth fel gweinidog, a'i greadigrwydd hynod mewn sawl maes! Diolchwn am i'r Arglwydd ei ddefnyddio'n helaeth yma ym Mro Aled ac yn ehangach ar draws y byd, a gweddiwn am ymddeoliad llawen yn llawn o ddiddanwch yr Arglwydd iddo yntau ac Ann. Yn bersonol, mae fy nyled yn enfawr i Aneurin am ei gyfeillgarwch a'i anogaeth ddiwyro i mi wrth i ni gyd-weithio ers 2011. Bu'n fraint cael dysgu ganddo a chyd-ddyheu fel tîm gweinidogaethol ar i'r Arglwydd adeiladu ei eglwys ym Mro Aled. Bu Aneurin yn esiampl o dduwioldeb, haelioni ac amynedd, ac edrychaf ymlaen at gael pwysu ar ei gyngor am flynyddoedd i ddod! Diolchwn i'r Arglwydd am ei holl roddion, yn arbennig yr Un sydd y tu hwnt i eiriau. (2 Cor. 9:15)

Rhodri

Darllenid Wythnos Nesaf

Genesis 50:15-21 (BCND tud.49 / BCN tud.44)

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 11^{eg}
SUL Y FRO

Dwy Oedfa Arbennig:

- ✧ Cynhelir oedfa yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **am 10.30 y bore** i dderbyn saith o ieuencid yr ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol. Bydd hefyd yn gyfle i ddiolch i Sarah Dafydd am ei gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf fel Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol yn y Fro.
- ✧ Yna, **am 6.00 yr hwyr**, bydd oedfa arbennig i ddiolch am weinidogaeth Aneurin ac i'w ollwng o'i ddyletswyddau fel gweinidog yma ym Mro Aled.

Mawrth – 13^{eg}

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Mercher – 14^{eg}

- **Is-Bwyllgor Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Cynhelir y cyfarfod yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl am 7.00, a'r siaradwraig fydd Mrs Cheryl Williams.

Iau – 15^{fed}

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Henllan. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.

Gwener – 16^{eg}

- **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.

Sadwrn – 17^{eg}
ORDEINIO A SEFYDLU

- ✧ Cynhelir oedfa arbennig i

ORDEINIO A SEFYDLU

Dr Rhodri Glyn

yn Weinidog ar Eglwysi Bro Aled

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 2.00.

Croeso cynnes i bawb.

Sul nesaf – 18^{fed}

- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Mawrth – 13^{eg}

Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.

Sul nesaf – 18^{fed}

Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

Mercher – 14^{eg}

Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Medi 11eg**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 18^{fed}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Bydd Rhodri hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul nesaf – 18^{fed}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

Sul nesaf – 18^{fed}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Gwener – 16^{eg}

Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Medi 11eg**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 18^{fed}

Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.